

ADRODDIAD YMGYSYLLTU LLAIS POWYS

Fforwm Cyhoeddus Llanandras
– Mawrth 2025

Cyflwyniad

Ar 5 Mawrth, cynhaliodd Llais Powys fforwm ymgysylltu cyhoeddus yn Llanandras i wrando ar brofiadau a phryderon trigolion ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Cynigiodd y fforwm gyfle gwerthfawr i'r mynychwyr rannu eu straeon a'u hawgrymiadau, gan dynnu sylw at heriau allweddol o ran mynediad, cyfathrebu a darparu gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a glywsom, sut mae'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol, a'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd nesaf.

Yr Hyn a Glywsom

Mynediad at Wasanaethau Meddyg Teulu

- Pryder eang ynghylch anawsterau wrth archebu apwyntiadau gyda meddyg teulu, gydag amseroedd aros o 3–4 wythnos ar gyfer ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.
- Nodwyd bod systemau brysbennu yn ddefnyddiol mewn achosion brys, ond roedd yr eglurder ynghylch eu defnydd yn amrywio.
- Mynegodd trigolion rwystredigaeth ynghylch anghysondeb mewn argaeledd gwasanaethau, fel fflebotomi, drwy gydol yr wythnos.

Cyfathrebu a Chydlynu

- Sawl enghraifft o ddilyniant a chyfathrebu gwael rhwng gofal sylfaenol ac ysbytai, gan arwain at ddryswch a phryder i gleifion.
- Dryswch ynghylch rolau gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol (e.e., parafeddygon, ymarferwyr nyrsio).
- Nid yw cleifion yn glir ynghylch sut mae gwasanaethau'n gweithredu, gyda phwy i gysylltu, a phryd.



Iechyd Menywod

- Diffyg mynediad lleol at wasanaethau gosod coiliau; rhaid i gleifion deithio i Lanfair-ym-Muallt.

Iechyd Meddwl

- Pryder dwfn yn y gymuned ynghylch iechyd meddwl pobl ifanc a hunanladdiad, gyda phump o fywydau ifanc wedi'u colli yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae adroddiadau am ddilyniant annigonol ar ôl cymorth iechyd meddwl wedi'u tynnu'n ôl.

Gofal Cymdeithasol a Chymorth Diwedd Oes

- Disgrifiadau o staff dan bwysau a mynediad cyfyngedig at gymorth, yn enwedig yn ystod senarios diwedd oes.
- Pryderon ynghylch gorddibyniaeth ar asesiadau dros y ffôn gan therapyddion galwedigaethol.
- Diffyg cymorth gofal brys i ofalwyr.

Cau Gwasanaethau ac Ansicrwydd Cyllid

- Mae cau gwasanaethau cleifion mewnol Ysbyty Trefyclo wedi lleihau mynediad at ofal adsefydlu a diwedd oes.
- Ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol fel Cymorth Dydd Dwyrain Maesyfed a'r Tîm Cymorth Cartref.
- Mae'r Ganolfan Ddydd yn parhau ar gau ar ôl COVID; mae gwasanaethau amgen fel Prydau ar Glud yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr ond nid ydynt wedi'u hariannu'n ddigonol.

Materion Trawsffiniol

- Rhwystredigaeth gyda'r strwythur dameidiog rhwng gwasanaethau iechyd Cymru a Lloegr, yn enwedig mewn ardal ar y ffin fel Llanandras.



Mewnwelediadau Allweddol

Mae'r profiadau cymunedol hyn yn adlewyrchu'n gryf nifer o flaenoriaethau strategol Llais:

- **Ysgogi Sgwrs Genedlaethol:** Mae'r angen am weledigaeth gliriach a chyson ar gyfer darparu gwasanaethau ledled cefn gwlad Cymru yn amlwg. Mae lleisiau o gymunedau ar y ffin yn hanfodol yn y sgwrs hon.
- **Gwthio am Wasanaethau sy'n Diwallu Anghenion Pobl:** Mae straeon am ofalwedi'u oedi, dryswch ynghylch mynediad, a gwasanaethau heb ddigon o adnoddau yn dangos angen clir am ddarpariaeth fwy ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y person.
- **Cydweithio'n Well:** Mae bylchau cyfathrebu rhwng gofal sylfaenol, ysbytai, a gofal cymdeithasol yn tynnu sylw at yr angen brys am gydlynw gwell.
- **Tyfu a Gwella fel Sefydliad:** Gofynnodd trigolion i Llais am gefnogaeth gydag adnoddau ymarferol, fel crynodeb un dudalen o wasanaethau lleol – cam syml a allai wella ymwybyddiaeth a mynediad.



Camau Nesaf

Yn seiliedig ar yr adborth o'r fforwm hwn, bydd Llais Powys yn:

- **Cysylltu â byrddau iechyd lleol a Shropdoc** i godi materion mynediad anghyson i wasanaethau ac oedi wrth gyfathrebu.
- **Ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** a gwasanaethau cyfagos yn Lloegr i archwilio gwelliannau cydlynu trawsffiniol.
- **Dilyn pryderon ynghylch darpariaeth iechyd menywod**, yn enwedig gwasanaethau gosod coiliau.
- **Cynnal sgysiau pellach gyda darparwyr cymorth iechyd meddwl lleol ac ysgolion** i ddeall a mynd i'r afael â'r argyfwng iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl ifanc.
- **Eirioli dros gyllid cynaliadwy** ar gyfer East Radnorshire Care Ltd, y Ganolfan Ddydd, a'r Tîm Cymorth Cartref.
- **Datblygu a dosbarthu canllaw clir i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol**, gan gynnwys rhifau cyswllt a llwybrau mynediad, yn ôl cais y mynychwyr.



Casgliad

Mae'r hanesion a rennir yn Llanandras yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol lleisiau lleol wrth lunio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Llais yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u gweithredu. Diolchwn i bawb a fynychodd a rhannu mor agored.

Os hoffech chi rannu eich profiadau eich hun, cysylltwch â ni yn ymholiadaupowys@llaiscymru.org neu ewch i llaiscymru.org.

Gyda'n gilydd, gallwn helpu i lunio system iechyd a gofal gryfach a thecach i bawb.

